**LC305**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU**
**DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT**
**DRAFT**

**Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995 (OS 1995/3123) drwy ddiweddaru'r cyfeiriad at Gyfarwyddeb 95/31 EC er mwyn cynnwys diwygiadau a wnaed gan Gyfarwyddeb 2000/51. Mae Cyfarwyddeb 1995 yn ymwneud â meini prawf penodol ynghylch purdeb ac mae diwygiad 2000 yn amnewid manylebau newydd ar gyfer syrop *maltitol*.

Deellir bod yr un diwygiadau'n cael eu gwneud ar gyfer Lloegr.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol**

Nid yw'n briodol rhoi rhif i'r paragraff mewn gwirionedd, gan mai un paragraff yn unig sydd.

Deellir bod y Gweinidog yn bwriadu rhoi'r gair "Rheoliadau" yn lle "Offerynnau" er mwyn gwneud y nodyn yn gliriach. Gan nad diwygiad i destun y rheoliadau yw hynny, nid oes

angen cael memorandwm cywiriadau, er y gallai'r newid gael ei gynnwys mewn memorandwm cywiriadau pe dymunid gwneud hynny.

**Rheoliad 3(2)**

Deellir bod y Gweinidog yn bwriadu gwneud y newid canlynol er mwyn gwella eglurder y ddarpariaeth hon –

"E965(ii) syrup maltitol" i'w roi yn lle "maltitol syrup"

Cadarnheir y byddai'n briodol cynnwys hyn mewn Memorandwm Cywiriadau.

**Troednodyn (f)**

Dylai "198" yn y testun Saesneg fod yn "1981"

**J H TURNBULL**
Cynghorydd Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-335

20 Mehefin 2001